## Prosiect Wicipics

# Adroddiad Effaith

Jason Evans - Mawrth 2021



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

**Crynodeb** **3**
Cyflwyniad 4
**Wicipics** **4**
Effaith Covid-19 5
Targedau 5
**Effaith** **5**
Mesur effaith 5
Cymru Lewyrchur 7
Twristiaeth 7
Cymru Gydnerth 9
Cymru Iachach 9
Cymru sy'n fwy Cyfartal 10
Cymru o gymunedau cydlynus 10
Cymuned 11
Sefydliadau 12
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu 12
Diwylliant Bywiog 13
Yr Iaith Gymraeg 13
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang 14




*Adeilad rhestredig Gradd II Orsaf Ganolog Caerdydd, gan defnyddiwr Wikimedia:No Swan So Fine*

# Crynodeb

Roedd Prosiect Wicipics yn canolbwyntio ar dorfoli delweddau trwydded agored a oedd yn dangos adeiladau hanesyddol Cymru.Bwriad hyn oedd creu data cyfoethog, dwyieithog agored ar gyfer y safleoedd a ddangoswyd ac adeiladau hanesyddol eraill yng Nghymru.Mae CADW a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC), ill dau yn cynnal a chasglu data am adeiladau hanesyddol Cymru ac adeiladau sydd wedi eu cofrestru, ond maent ar hyn o bryd ond yn cadw data cyfrwng Saesneg ar gyfer y mwyafrif o safleoedd ac ond yn caniatáu ailddefnydd personol (di-fasnachol) o'u casgliadau ffotograffig.Mae'r prosiect hyn yn bwriadu darparu mwy o ddelweddau a data at ddefnydd agored, a hynny yn y Gymraeg, ar gyfer defnydd ar Wikipedia, mewn addysg a gan sefydliadau amudiadau preifat a sector cyhoeddus wrth hyrwyddo treftadaeth Gymreig.
Roedd targedau'r prosiect yn cyd-fynd gydag amcanion Deddf LlesiantCenedlaethau'r Dyfodol (2015) a phwrpas yr adroddiad hwn yw asesu effaith allbwn y prosiect wrth eu mesur yn erbyn y meini prawf yma.

Mae rhai o'r effeithiau mwy eglur yn berthnasol i les corfforol a meddyliol, gan fod y prosiect yn annog pobl i archwilio a chwilota yn eu cymunedau er mwyn tynnu ffotograff o'r safleoedd hanesyddol hyn.Mae nifer o gyfranwyr yn nodi bod y prosiect wedi darparu ysgogiad a chymhelliant iddynt mewn cyfnod pan oedd cyfyngiadau teithio wedi eu gosod oherwydd pandemig Covid-19.

Roedd y pandemig wedi cael effaith ar y gallu i gyflawni rhai o dargedau'r prosiect fel grŵp, ac yn golygu nad oedd digwyddiadau cymunedol ac ysgol ddim yn bosib.Ceisiwyd addasu'r prosiect gorau bosib o dan yr amgylchiadau a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ar-lein ac o bell drwy dasgau torfoli.

Cafodd dros 1800 o ddelweddau eu rhannu gan y prosiect drwy drwydded agored a chawsant eu uwchlwytho i Wikimedia Commons gan grŵp o 43 o gyfranwyr.O fewn mis, cafodd erthyglau Wikipedia oedd yn cynnwys y delweddau hyn, eu gweld 68,000 o weithiau mewn 8 iaith.Roedd hyn yn arddangos effaith uniongyrchol rhannu deunydd agored drwy Wikimedia, gydag astudiaethau yn dangos effeithiau posibl tymor-hir ar gyfer twristiaeth ac yn addysgu pobl am hanes a diwylliant Cymru.

Effaith arall a nodwyd oedd bod y prosiect wedi dangos Cymru wydn a chydradd gyda chymunedau cydlynol.Mae Mynediad Agored yn helpu rhyddhau cynnwys oddi wrth gyfyngiadau sefydliadol.Drwy gydweithio gydag eraill yn y sector, cafodd y delweddau hefyd eu rhannu ar wefan dwyieithog Casgliad y Werin Cymru, rhoddwyd hwy i Lyfrgell Genedlaethol Cymru fel casgliad digidol a byddant yn cael eu hymgorffori i Gronfa Ddata 'Coflein' CBHC.

Gan ei fod wedi ei ariannu gan Adran Dechnoleg yr Iaith Gymraeg yn Llywodraeth Cymru, roedd y prosiect wedi ei chynllunio fel ei bod yn cyflawni cynnydd sylweddol yng nghynnwys digidol Cymraeg ei iaith ac yn cryfhau'r iaith Gymraeg sydd yn darged allweddol yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.O ganlyniad i ymgyrch dorfol i gyfieithu enwau adeiladau cofrestredig yng Nghymru gwelwyd cynnydd o 275% mewn data agored yn yr iaith Gymraeg ar gyfer y safleoedd yma a chafodd 7000 o enwau lleoedd eu cyfieithu heb ddefnyddio cyfieithiadau awtomatig cyfrifiadurol.Yn ogystal â hynny, defnyddiwyd Wikidata cyfrwng Cymraeg, sy'n bodoli'n barod, i greu a chynhyrchu 28,000 disgrifiad byr ar gyfer adeiladau cofrestredig a 6,000 ar gyfer capeli yng Nghymru.Crëwyd data sylfaenol dwyieithog ar gyfer capeli Cymru yn Wikidata; sef y tro cyntaf mae enwau cyfrwng Cymraeg ar gyfer holl gapeli Cymru wedi cael eu darparu at ddefnydd y cyhoedd.
Yn sgil cynnal digwyddiadau gydag ysgolion a phrifysgol crëwyd nifer o erthyglau Wicipedia Cymraeg eu hiaith a chafodd tua 40 o olygyddion Wikipedia newydd eu hyfforddi.Fel y gwelwyd

gyda phrosiectau blaenorol mae'r digwyddiadau hyn yn helpu datblygu defnydd o'r iaith Gymraeg yn ogystal â meithrin ystod o sgiliau ymchwil, ysgrifennu a thechnegol

Mae'r prosiect wedi arwain at gyd-weithio cynyddol rhwng y Llyfrgell genedlaethol a sefydliadau diwylliannol eraill yn ogystal â grwpiau cymunedol.

Cafodd cais ariannu ar gyfer prosiect cydweithredol newydd, sy'n bwriadu adeiladu ar lwyddiant y gweithgareddau torfol a'r cynnydd mewn data agored ar gyfer enwau lleoedd Cymraeg, ei datblygu hefyd, ac a fydd yn gymorth i atgyfnerthu effeithiau tymor-hir y gwaith hwn.

## Cyflwyniad

Dechreuodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LlGC) gyd-weithio yn swyddogol gyda Wikimedia UK yn 2015 pan benodwyd Wicipediwr preswyl yn y Llyfrgell.Cymaint oedd llwyddiant y rôl newydd fel bod LlGC wedi ymgorffori'r cydweithrediad hwn fel rhan ganolog yn ei gweithgareddau fel sefydliad.Mae wedi cynnal dwsinau o ddigwyddiadau Wikipedia estyn allan, gan rannu bron i 20,000 o ddelweddau digidol ar Wikimedia Commons, ac wedi cyflawni gwaith arloesol yn trosglwyddo metadata casgliad i ddata agored cysylltiedig, trwy ddefnyddio Wikidata.

Yn 2017, penodwyd 'Wicipediwr Cenedlaethol' parhaol gan LlGC er mwyn sicrhau dyfodol y cydweithredu hwn, sydd wedi cynhyrchu dros biliwn o gipiau (views) o erthyglau Wikipedia sy'n cynnwys delweddau LlGC ac wedi creu miloedd o erthyglau Wikipedia sy'n berthnasol i Gymru, mewn nifer o ieithoedd.Mae'r prosiect hefyd wedi denu arian oddi wrth Lywodraeth Cymru sydd wedi adnabod gwerth cyfraniad digwyddiadau Wikipedia trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, neu 'Golygathons' yn benodol, i'w strategaeth o ran yr iaith Gymraeg.

Mae'r llyfrgell hefyd wedi cynhyrchu papur '*Open by Default*' sy'n ategu ei ymroddiad i ddarparu mynediad agored i'w chasgliadau, ac yn amlinellu map llwybr ar sut i gynyddu mynediad agored yn ystod y cylch strategaeth gyfredol (2017 – 2021)

Yn 2018 lansiodd Europeana y cam cyntaf yn ei *Impact Playbook* – sef adnodd oedd yn bwriadu helpu gweithwyr proffesiynol ym maes treftadaeth ddiwylliannol i adnabod ac asesu beth oedd effaith eu gweithgareddau.Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi mabwysiadu'r fethodoleg yma er mwyn helpu cynllunio a mesur effaith y prosiectau.

Bwriad yr adroddiad hwn yw dangos sut mae prosiect Wicipics wedi cyfrannu tuag at dargedau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

# Wicipics

Cyn y dechreuwyd ar Brosiect Wicipics roedd prosiectau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar greu erthyglau ac uwchlwytho data Cymraeg eu hiaith.Er hynny, mae prosiect Wicipics wedi torri cwys newydd sydd yn wahanol i'r hen fframwaith a fu'n sail i nifer o brosiectau blaenorol.Prif ffocws prosiect Wicipics oedd ennill cyfranogiad y cyhoedd wrth dynnu ffotograffau o adeiladau hanesyddol o gwmpas Cymru er mwyn datblygu adnodd cyfoethog o gynnwys trwyddedig agored oedd yn sicrhau mynediad i bawb.Ail bwrpas y prosiect oedd sicrhau fod gan bob delwedd, oedd yn cael ei gyfrannu i'r prosiect, fetadata ddwyieithog a bod y data agored (ar Wikidata) ar gyfer

adeiladau hanesyddol Cymru, yn cynnwys mwy o ddata cyfrwng Cymraeg.Roedd y ffocws ar sicrhau bod gan bob capel yng Nghymru gofnod agored dwyieithog ar Wikidata.

## Effaith Covid-19

Cafodd y prosiect hwn ei chynllunio cyn cychwyn y pandemig ac felly roedd rhaid i dargedau'r prosiect gael eu haddasu yn ôl yr amgylchiadau newydd.Effeithiodd hyn ar ein gallu i ymgymeryd gyda'r rhaglen arfaethedig, sef estyn allan i ysgolion a grwpiau cymunedol yn ogystal â'n gallu i gyfathrebu a hybu pobl i fynd allan a thynnu ffotograffau.Bu'n rhaid canslo cynlluniau arfaethedig i gynnal teithiau cerdded gyda phlant ysgol a grwpiau cymunedol a fyddai wedi bod yn gyfle i dynnu ffotograffau a dysgu am adeiladau hanesyddol lleol.Yn sgil amgylchiadau'r pandemig bu'n rhaid hefyd symleiddio digwyddiadau/gweithdai golygu Wikipedia gyda'r ysgolion a symud i'w cynnal ar-lein.Bu'n rhaid hefyd rhoi'r gorau i'r syniad o gynnal cystadleuaeth ffotograffiaeth, oherwydd cyfyngiadau teithio a fu mewn lle am fwyafrif llethol o hyd y prosiect.Yn ôl gofynion y gystadleuaeth byddai ymgeiswyr wedi ail-greu ffotograffau hanesyddol mewn 10 lleoliad ar draws Cymru.Addaswyd cynllun y prosiect sawl gwaith oherwydd effaith y pandemig a disodlwyd hen dargedau, oedd bellach ddim yn bosib, gan dargedau newydd.Roedd y targedau newydd yn cynnwys prosiect cyfieithu torfol newydd a phrosiect-micro Mwynfeydd Plwm Cymru.

## Targedau

Dyma grynhoad o dargedau'r prosiect a gafodd eu haddasu:


- Cysylltu gyda CADW a Chroeso Cymru er mwyn trafod polisi Mynediad Agored
- Hyrwyddo'r prosiect ar y Cyfryngau Cymdeithasol
- Cefnogi cystadleuaeth ffotograffiaeth WikiLovesMonuments
- Datblygu prosiect torfoli ble fyddai gwirfoddolwyr yn medru lleoli yn rhwydd ac uwchlwytho delweddau'r adeiladau hanesyddol trwy ddefnyddio trwydded agored
- Creu data agored dwyieithog am bob capel yng Nghymru ar Wikidata
- Cynnal 4 digwyddiad Golygathon hanes lleol mewn ysgolion
- Rhannu pob delwedd a gafodd ei thorfoli ar Wikimedia Commons, Casgliad y Werin Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, fel casgliad digidol archifol gyda chapsiynau dwyieithog
- Torfoli cyfieithiadau Cymraeg ar gyfer enwau adeiladau cofrestredig Cymru
- Creu Wikidata dwyieithog ar gyfer holl fwynfeydd plwm ac arian yng Nghronfa Ddata Coflein ac uwchlwytho delweddau a ddarparwyd gan gyfranwyr y prosiect.

# Effaith

## Mesur effaith

Er mwyn mesur effaith mae angen inni ddeall y newidiadau yr ydym yn bwriadu, neu'n disgwyl eu gweld, o ganlyniad i wahanol allbynnau'r prosiect drwy ddefnyddio data dadansoddol a data yn seiliedig ar dystiolaeth.Casglwyd gwybodaeth fetrig cyn, yn ystod, ac ar ôl gorffen y prosiect yn ogystal â defnyddio adborth defnyddwyr, er mwyn mesur y newidiadau roeddem yn eu bwriadu.Defnyddiwyd model Impact Playbook i fapio allbynnau gwreiddiol y prosiect gyda'r effeithiau dymunol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

*Gweler isod;*




PROSIECT: WiciPics
PROJECT:

LLGC NLW
LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

**Well-being of Future Generartions (Wales) Act 2015**

**Egwyddor Datblygu Cynaliadwy - Sustainable Development Principle**

1. Tymor hir - Long term
2. Atal - Prevention
3. Integreiddio - Integration
4. Cydweithio - Collaboration
5. Cynnwys - Involvement

Mae’n bwysig nodi, mai ar yr adeg mae’r adroddiad hwn yn cael ei ysgrifennu, bod y prosiect ond newydd gael ei chwblhau. Golyga hyn bod llawer o’r allbynnau tymor-hir, o bosib, heb gael eu gwireddu neu hyd yn oed yn fesuradwy. Mae’n eglur hefyd, bod disgwyl i’r llwybrau newid a fyddai wedi dod yn sgil y prosiect, i gyfrannu at amrywiaeth o effeithiau.Mae’n rhesymegol felly i asesu effaith y prosiect ar sail elfennau gwahanol Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, fel sy’n cael eu rhestru uchod.



Capel Bethania yr Annibynwyr yn Rhosaman, gan Ade Rixon

# Cymru Lewyrchur

Mae’r broses o greu data a thestun rhydd a delweddau sy’n medru cael eu hail-ddefnyddio, yn ei dro wedi creu amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer busnes ac yn hyrwyddo gwelliant yn safonau addysg a llythrennedd digidol a chyfrifiadurol.

## Twristiaeth

Daeth astudiaeth gan economegwyr Eidalaidd yn 2020[1] i’r casgliad bod ychwanegu dau baragraff o destun ac un ddelwedd i dudalen Wikipedia ar gyfer dinas fechan yn medru cynyddu incwm twristiaeth cymaint â £100,000 ychwanegol.Unwaith roedd testun a delwedd yn cael eu hychwanegu i Wikipedia mewn ieithoedd eraill roedd arhosiad cyfartalog twristiaid mewn dinas yn cynyddu tua 9%.Yn wyneb y lefel yma o effaith, gellir disgwyl gweld cynnydd yn nifer yr ymweliadau i adeiladau hanesyddol, trefi a safleoedd archeolegol yn sgil cynnwys delweddau yn yr erthyglau.

Dylai’r cynnydd yng nghyfleustra mynediad at ddelweddau a data ar gyfer adeiladau hanesyddol, annog pobl i greu erthyglau Wikipedia newydd.

Arweiniodd y prosiect at uwchlwytho **1394 o safleoedd unigryw**.Roedd bron pob un o’r rhain yn adeiladau hanesyddol oedd heb ddelweddau trwyddedig agored cyn cychwyn y prosiect.Ers Mawrth 2021 **defnyddiwyd 1433 o ddelweddau ar Wikidata** ac roedd **100 o ddelweddau eisoes mewn defnydd mewn erthyglau Wikipedia** mewn **8 gwahanol iaith**.

[1] Adroddiad am yr astudiaeth yn y Guardian. 10 Medi 2020

Yn Chwefror, sef y mis llawn cyntaf wedi i'r delweddau hyn gael eu rhannu, cafodd yr erthyglau oedd yn cynnwys y **delweddau hyn eu gweld 68,000 o weithiau**[2] sy'n dangos effaith allbwn y prosiect yma.

## Addysg

Mae'r prosiect wedi helpu addysgu pobl am hanes adeiladau lleol ac am y bobl neu'r sefydliadau oedd yn gysylltiedig gyda hwy, a bydd y cynnydd yng nghynnwys Wikipedia, sydd wedi ei nodi uchod, yn helpu hyrwyddo'r addysg hynny.Yn ystod y prosiect cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau o bell gydag ysgolion er mwyn dangos a hyfforddi disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd sut i olygu Wikipedia, yn Gymraeg, a sut i ychwanegu delweddau i erthyglau.Mae'r gweithgaredd hyn yn helpu datblygu **sgiliau yn yr iaith Gymraeg** a **sgiliau llythrennedd cyfrifiadurol** ymhlith bobl ifanc gan roi'r hyder iddynt i gyfrannu i Wicipedia Cymraeg.

Roedd y Llyfrgell Genedlaethol mewn partneriaeth gyda Menter Iaith Môn a Wicipediwr Preswyl Menter Iaith Môn, sef Aaron Morris ac o ganlyniad cynhaliwyd 3 digwyddiad mewn ysgolion.Ac er gwaethaf cyfyngiadau'r pandemig, bu'r digwyddiadau hyn yn gyfle i **36** disgybl gael y profiad i naill ai wella neu greu **13** erthygl am safleoedd hanesyddol yn eu hardaloedd lleol.

Digwyddiad cyfieithu gyda chymorth myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o'r cwrs Astudiaethau Cyfieithu ym Mhrifysgol Aberystwyth yn helpu creu erthyglau newydd ar gyfer Wicipedia Cymraeg.Wrth ddefnyddio Wikipedia fel rhan o'u hastudiaethau roedd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau cyfieithu hwy, tra hefyd yn cyfoethogi a mireinio'r Wicipedia Cymraeg.




Aaron Morris, Menter Iaith Môn, yn arwain digwyddiad Wicipics gyda disgyblion ysgol gynradd Ysgol Y Graig, Llangefni.

[2] Ystadegau delweddau Wikimedia - Delweddau Wicipics, February 2021

# Cymru Gydnerth

Mae'r prosiect yn dynodi newid clir yn y ffordd mae cynnwys am ein treftadaeth adeiladol yn cael ei rannu gan sefydliadau sydd wedi eu hariannu gan arian cyhoeddus. Mae holl allbwn y prosiect yn medru cael ei weld a'i ddarllen ar **drwydded agored** yn hytrach na thrwy drwydded an-fasnachol a thrwyddedau mwy cyfyng eraill, fel sy'n cael eu defnyddio fel arfer gan CADW a CBHC. Mae creu adnodd rhydd ar-lein, sydd at ddefnydd y gymuned a busnesau lleol, yn arddangos gallu i addasu i newid ac i ofynion y cymunedau.

# Cymru Iachach


Yn wahanol i brosiectau cynt gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, roedd y prosiect yma wedi ei chynllunio gyda'r bwriad o annog pobl i fynd allan a chwilota ac ymchwilio yn eu cymunedau.Gan ddefnyddio meddalwedd trwydded agored i rannu map o safleoedd hanesyddol a oedd angen ffotograffau[3], roedd defnyddwyr yn cael eu hannog i chwilio eu hardaloedd lleol ar droed er mwyn darganfod lleoliadau'r adeiladau ac wedyn tynnu ffotograffau o'r safleoedd.

Roedd yr elfen hon o'r prosiect wedi cael ei chynllunio cyn pandemig **Covid,** ac ar y cychwyn roedd trefniadau ar gyfer cynnal teithiau ffotograffig gyda grwpiau ysgol a chymunedau lleol, ond yn anffodus, oherwydd yr amgylchiadau nid oedd hyn yn bosib.

Er hynny, tynnwyd **1824 o ddelweddau** dros gyfnod o 3 mis, gyda **48 cyfrannwr** wedi cofrestru ar gyfer y prosiect.Teimlodd nifer o gyfranogwyr bod y prosiect wedi bod yn ffordd wych i gadw'n heini, yn feddyliol ac yn gorfforol, adeg y clo.



***Morfudd***
*Roedd Morfudd eisiau gwella safon y cofnodion ffotograffig o'r adeiladau hanesyddol yn ei hardal hi a darganfyddodd bod y prosiect yn rhoi esgus da iddi i fynd am dro a chwilota llefydd lleol newydd yn ystod y cyfnod clo. Drwy wneud hyn, dysgodd llawer am bwysigrwydd yr adeiladau lleol. Roedd hithau hefyd yn awyddus i weld y prosiect hwn yn cael ei chynnal drwy gydol y flwyddyn er mwyn medru parhau i gyfrannu unwaith mae'r clo yn cael ei godi a phan fyddai'n medru teithio'n ymhellach.*




[3] Map a ddefnyddir i dynnu sylw at adeiladau sydd angen tynnu lluniau

## Cymru sy'n fwy Cyfartal

Un o brif amcanion Wikipedia a'r mudiad **Trwydded Agored** ehangach yw cynyddu **cydraddoldeb gwybodaeth** er mwyn sicrhau bod pawb yn cael mynediad cyfartal i gyfleoedd, gwybodaeth ac addysg.

Mae pob delwedd sy'n cael ei rannu yn y prosiect yma ar gael am **ddim** trwy gyfrwng trwydded Creative Commons (CC-BY-SA).Mae'r data, yn cynnwys disgrifiadau dwyieithog ar gyfer yr holl ddelweddau, gwybodaeth am **6000 o gapeli Cymru** a data ar gyfer bron i **30,000 o adeiladau cofrestredig**, ac ar gael drwy drwydded CC-0, sy'n golygu ei fod yn medru cael ei ail-ddefnyddio gan bawb heb unrhyw gyfyngiadau.Mae holl allbynnau'r prosiect ar gael yn **ddwyieithog**, yn cynnwys deunydd hyrwyddo, cyhoeddiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a metadata, ac felly yn hyrwyddo cydraddoldeb i bawb.



***Peter***
*Mae Peter yn aelod o dîm gwirfoddolwyr y Llyfrgell a dywedodd bod y prosiect wedi rhoi ffocws iddo yn ystod y cyfnod clo, ac wedi ei helpu i fynd allan. Er, roedd cyfyngiadau teithio wedi golygu nad oedd wedi llwyddo i wneud cymaint â beth fyddai wedi dymuno.*

Mae'r **1824 delwedd** a rannwyd yn ystod y prosiect wedi cael eu darparu ar sawl platfform gwahanol er mwyn cynyddu mynediad iddynt ymhlith cymunedau gwahanol.Mae'r cynnwys ar gael ar **Wikimedia Commons**[4] ble medrir yn hawdd ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau Wikipedia a gan unigolion neu sefydliadau sy'n dymuno ail-ddefnyddio'r holl ddata neu isadrannau mawr o ddata.Mae'r holl ddelweddau wedi cael eu uwchlwytho i blatfform **Casgliad y Werin Cymru**[5] sydd wedi ei anelu at ddefnyddwyr mwy achlysurol sydd â diddordeb mewn hanes lleol. Mae ganddo hefyd **elfen gymdeithasol**, sy'n caniatáu pobl i gyfrannu storïau a gwybodaeth sy'n gysylltiedig gyda'r delweddau.

Mae'r delweddau a'r data perthnasol hefyd wedi cael eu rhoi gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru ble fyddant yn ffurfio archif gyhoeddus barhaol. Bydd hyn yn sicrhau bod mynediad parhaol ar gyfer pwrpas **astudiaeth ac ymchwil**.

## Cymru o gymunedau cydlynus

Cynlluniwyd y prosiect gyda'r bwriad i greu ac annog cydweithrediad cymunedol a sefydliadol.At ei gilydd, gan ei fod yn **brosiect torfoli**, yr amcan oedd cynyddu ansawdd a swmp y data cyhoeddus ar gyfer adeiladau hanesyddol drwy gyfrwng cyfraniadau gwirfoddol, a fyddai o ganlyniad yn cynhyrchu cynnwys oedd y bobl yn medru cael mynediad ato, a'i ail-ddefnyddio yn rhydd ac am ddim.Roedd yn bwysig hefyd bod unrhyw ddata testunol ar gael yn y Gymraeg.

4 Delweddau Wicipics ar Comin Wikimedia
5 Delweddau Wicipics ar wefan Casgliad y Werin

## Cymuned

Mae nifer o gyfranwyr i'r prosiect wedi datgan diddordeb eu bod eisiau parhau i gyfrannu tu hwnt i derfyn y cyfnod ariannu ac mae nifer o amgueddfeydd a grwpiau lleol wedi annog eu gwirfoddolwyr a'u cymunedau i gyfrannu i'r prosiect.Mae hyn yn dangos lefel uchel o ddiddordeb ac ymrwymiad ymhlith rhai oedd wedi ymgymeryd â'r prosiect ac yn awgrymu eu bod wedi mwynhau cyfrannu i'r prosiect.

Yn anffodus, roedd cyfyngiadau'r Covid yn golygu ein bod wedi methu cydweithio'n uniongyrchol gyda grwpiau cymunedol, ond roedd lefel yr ymrwymiad i'r prosiect, o dan yr amgylchiadau, wedi dangos **natur gydlynol ein cymunedau**.

Roedd nifer o gyfranwyr yn Wikimediaid profiadol, yn gyfarwydd gydag ymgyrchoedd ffotograffiaeth tebyg fel *Wici Henebion*, ac roedd y gymuned hon yn weithgar yn cyfrannu i'r prosiect.



***Alwyn***

*Mae Alwyn yn gyfrannwr brwd i Wicipedia Cymraeg ac roedd wedi gweld y prosiect fel ffordd wych i gymryd mwy o ffotograffau oedd eu hangen i enghreifftio a darlunio erthyglau. Llwyddodd i ddefnyddio llawer i'r delweddau a gyfrannwyd gan eraill i wella erthyglau Wicipedia. Oherwydd y prosiect darganfyddodd bod un o ddynion busnes amlycaf Lerpwl wedi byw nepell oddi wrtho ar un adeg. Dywedodd Alwyn bod ymgyrchoedd yn seiliedig ar ffotograffiaeth yn ffordd ardderchog i bobl gyfrannu i Wikipedia, yn enwedig y rhai nad oes ganddynt yr hyder i gyfrannu ar ffurf ysgrifennu, ac mae'n gobeithio y bydd prosiectau tebyg yn cael eu darparu ar ôl y pandemig.*



Ffurfiwyd partneriaeth agos gyda **CBHC**, sydd yn cynnal y **gronfa ddata ar gapeli Cymru**, a rhoddwyd mynediad cyfyngedig ganddo i'w set ddata nhw, oedd yn galluogi creu eitemau data ar gyfer pob capel yn Wikidata.Golygai hyn y medrai holl gapeli Cymru gael eu cynnwys ar ein map o lefydd y gellid tynnu ffotograff ohonynt, ac yn golygu ein bod yn medru ychwanegu enwau a disgrifiadau yn y Gymraeg ar gyfer pob capel i'r Wikidata amlieithog.

Roedd natur agored a chynhwysol y prosiect yn golygu bod **mynediad gan bawb i'r allbwn**, fel bod y sefydliadau sydd â chofnodion ar gyfer adeiladau hanesyddol, yn medru defnyddio'r delweddau a'r data i gyfoethogi eu setiau data eu hunain.Gyda **phrinder data yn yr iaith Gymraeg** ar gyfer adeiladau hanesyddol ar draws y sector, roedd mynediad agored y prosiect yn golygu bod y data yn y Gymraeg a grëwyd ar gyfer y prosiect yma gan staff y prosiect neu gan wirfoddolwyr yn medru cael ei ddefnyddio gan amrywiaeth o lwyfannau eraill.

Mae CBHC eisoes wedi cytuno i gynnwys llawer o'r delweddau hyn er mwyn cyfoethogi cronfa ddata Coflein am yr adeiladau hanesyddol hyn.

Arweiniodd y prosiect hefyd at **drafodaethau gyda OSM Cymru**, sydd wedi cynhyrchu map agored o Gymru yn y Gymraeg yn defnyddio *Open Street Map*, ynghylch defnyddio data'r prosiect a data ychwanegol yn y Gymraeg oddi wrth Wikidata, er mwyn cyfoethogi map yn y Gymraeg.O ganlyniad, cyflwynwyd cais gyda'i gilydd, i Lywodraeth Cymru, am grant i fedru cydweithio a gweithredu'r syniad yma.

## Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Mae amddiffyn a hyrwyddo hanes a threftadaeth unigryw Cymru, yn cynnwys yr iaith Gymraeg, yn sialens enfawr ac yn naturiol mae hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a'r sector treftadaeth ddiwylliannol ehangach.

Mae'r prosiect yn targedu'r ddau amcan hyn yn uniongyrchol, drwy gynyddu mynediad at ddelweddau a data am dreftadaeth adeiladol Cymru a thrwy wella'n rhagweithiol, neu mewn llawer o achosion, creu data yn yr iaith Gymraeg.



***Geraint***

*Roedd Geraint wedi bod yn cofnodi capeli ac adeiladau hanesyddol eraill ar draws Cymru ers llawer o flynyddoedd a theimlai bod y prosiect hwn yn ffordd wych i ddiogelu a rhannu'r casgliad hwnnw.  Dysgodd llawer am yr adeiladau lleol y bu'n tynnu ffotograff ohonynt yn ystod y prosiect ac roedd yn awyddus i weld y prosiect yn cael ei chynnal yn y tymor-hir fel bod cynhaliaeth yn cael ei ddarparu i'r rhai oedd yn dymuno parhau i gyfrannu.*

## Diwylliant Bywiog

Drwy gyfrwng y gweithgaredd ffotograffiaeth torfoli cynyddwyd mynediad at y wybodaeth treftadaeth ddiwylliannol, a chrëwyd **1824 delwedd**, ac eitemau Wikidata ar gyfer **280 o fwynfeydd**[6] a **6227 o gapeli**[7]**.** Hefyd, cafodd **13 erthygl Wicipedia Cymraeg** naill ai eu gwella neu eu creu o'r newydd gan ddisgyblion ysgol yn Ynys Môn.

Yn ogystal â chreu cofnod data newydd mynediad agored ar gyfer adeiladau hanesyddol, cafodd y data a fodolai'n barod yn **Wikidata ei lanhau a'i wella**.Er enghraifft, cafodd cofnodion dwbl ar gyfer adeiladau hanesyddol o wahanol setiau data eu hadnabod a'u cyfuno.Adnabyddwyd tua **250 tafarn fel adeiladau cofrestredig a chapeli** a chafodd y data ei wella.



Capel rhestredig Gradd II Neuaddlwyd yng Nghwm Aeron. Gan Geraint Tudur

## Yr Iaith Gymraeg

Yn hanesyddol, mae CADW a CBHC yn cael eu gweld fel ceidwaid unrhyw ddata a chofnodion am adeiladau hanesyddol a chofrestredig Cymru sy'n rhan o'i threftadaeth.Maent wedi cadw cofnodion manwl a gwerthfawr ond mae eu cronfa ddata ar gael yn y Saesneg yn unig. Golyga hyn, bod llawer o adeiladau, strydoedd ac enwau lleoedd dwyieithog, yn ogystal â data disgrifiadol, ond ar gael yn y Saesneg.

Mai'r sefyllfa hyn nid yn unig yn rhoi **siaradwyr y Gymraeg o dan anfantais** o safbwynt y telerau mynediad, ond mae perygl go iawn hefyd, os nad ydynt yn cael eu cofnodi ar setiau data awdurdodedig, y bydd enwau Cymraeg yn mynd yn angof.

Mae Wikidata yn set ddata agored a chydweithredol sy'n galluogi defnyddwyr i gyfrannu labelai a disgrifiadau ar gyfer pob llinyn o ddata, mewn dros 300 o wahanol ieithoedd.Mae rhannu data

---

[6] Dolennu a labeli ar gyfer y mwyngloddiau perthnasol
[7] Capeli Cymru ar Wikidata efo dynodwr cronfa data Capeli Cymru

sylfaenol am ein hadeiladau hanesyddol yma yn caniatáu'r gymuned i ddechrau ychwanegu a gwella labeli yn yr iaith Gymraeg, ac mae Wikidata eisoes yn cynnwys dros 1 miliwn o eitemau data gyda labeli yn yr iaith Gymraeg.Yn sgil natur strwythuredig y data, golyga hyn y bydd llawer o'r data, unwaith caiff ei fapio i Wikidata, yn ymddangos yn awtomatig yn y Gymraeg.Er hynny, mae cyfieithu enwau adeiladau a disgrifiadau yn golygu bod angen defnyddio ffordd sydd â llai o bwyslais ar gyfrifiaduron a chyfieithiadau awtomatig.

Yn sgil y ffaith bod cyfyngiadau Covid wedi amharu ar ein gallu i fedru cyfarfod a chael cysylltiad wyneb yn wyneb gyda'r gymuned yn ystod y prosiect, cafodd tasg torfoli ychwanegol ei chynnwys a oedd yn anelu at gychwyn y broses o gyfieithu enwau a disgrifiadau adeiladau cofrestredig CADW, a gafodd eu hychwanegu i Wikidata rhai blynyddoedd yn ôl gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru gyda chaniatâd CADW.

O ganlyniad i'r prosiect Wicipics crëwyd **metadata dwyieithog** ar gyfer **1824 o ddelweddau** a wnaeth ymddangos ar Wikimedia Commons, Wikidata a gwefan Casgliad y Werin Cymru.Cafodd enwau a disgrifiadau dwyieithog eu hychwanegu hefyd at y **280** cofnodion data newydd ar gyfer mwynfeydd plwm Cymru.Crëwyd **35,000 disgrifiadau byr cyfrwng Cymraeg**[8] ar gyfer yr holl gapeli ac adeiladau cofrestredig yng Nghymru gan ddefnyddio'r Wikidata presennol yn y Gymraeg.

Cyn cychwyn y prosiect roedd tua **2600 o adeiladau cofrestredig** wedi eu labeli yn y Gymraeg.Mae'r nifer hynny wedi cynyddu i **9750** yn sgil gweithgareddau'r prosiect Wicipics.Mae hynna'n gynnydd o **275%**

Hefyd crëwyd labeli yn y Gymraeg ar gyfer **6000 o gapeli Cymru. Dyma'r tro cyntaf mae data yn y Gymraeg wedi bod ar gael i'r cyhoedd ar gyfer yr adeiladau yma.**



Gweddillion mwynglawdd plwm Plynlimon yng Ngheredigion, gan Chris Popham

## Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Trwy gynyddu lles economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru, mae gwerthoedd y prosiect yn cyd-fynd gyda llawer o amcanion cyffredinol lles.Mae'n rhaid hefyd ystyried yr effeithiau hyn o bersbectif byd-eang.Drwy **rannu cynnwys yn agored** ar lwyfannau byd-eang Wikimedia (Wikipedia, Wikidata a Wikimedia Commons) mae allbwn y prosiect yn cael ei ddarparu mewn

[8] Holl ddisgrifiadau Cymraeg ar gyfer adeiladau hanesyddol Cymru


fformat byd-eang adnabyddus, drwy drwyddedau byd-eang cydnabyddedig ac yn darparu'r un lefel o fynediad fel y ceir yma yng Nghymru.

Bydd hyn yn annog cymunedau ar draws y byd i ail-ddefnyddio cynnwys y prosiect ar gyfer ymchwil ac addysg, ac i ddysgu eu cymunedau am yr iaith Gymraeg, ei hanes a'i diwylliant.Hyd yn oed cyn diwedd y prosiect, roedd delweddau Wicipics yn cael eu defnyddio mewn **8 gwahanol iaith** ar Wikipedia.Bydd cyfoethogi'r wybodaeth am Gymru mewn ieithoedd eraill hefyd yn helpu hyrwyddo twristiaeth Cymru.

Bydd argaeledd llawer o'r data a gafodd ei rannu am adeiladau hanesyddol Cymru ar Wikidata yn cynyddu mewn nifer o ieithoedd eraill, wrth i wirfoddolwyr ychwanegu labelai i'r data yn eu mamiaith.Er enghraifft, o blith y 433 gwahanol fath o adeiladau hanesyddol sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn y set data, mae **87%** ar gael yn yr Almaeneg, **77%** mewn Ffrangeg a Chatalan a **69%** mewn Tseiniaidd.Yn ogystal â hynny, mae enwau meysydd data fel ' esiampl o', 'lleoliad' a 'delwedd' ar gael bron yn fyd-eang mewn dros 200 o ieithoedd.Mae hyn yn lleihau'n sylweddol y rhwystrau wrth ail-ddefnyddio mewn ieithoedd eraill, ac yn annog eraill i wneud defnydd o'r data mewn ffyrdd a all gynyddu gwybodaeth o ddiwylliant Cymru a'i hiaith ac annog addysgu pellach ar y pwnc ac ymweliadau i Gymru.



Capel Salem yr Annibynwyr yn Salem, Ceredigion. Gan Geraint Tudur


4 DIGWYDDIAD
Wedi'i gynnal yn Gymraeg, i wella cynnwys ar y Wicipedia Cymraeg
DATA CYMRAEG AR GYFER 6000 O GAPELI CYMRU
CYNNYD O 275%
Yn enwau Cymraeg ar gyfer adeiladau rhestredig Cymraeg gyda
7 MIL O GYFIEITHIADAU NEWYDD
DATA AMLIEITHOG
Wikidata yn galluogi ailddefnyddio data am adeiladau hanesyddol mewn sawl iaith
8 IAITH
Delweddau mewn defnydd eisoes mewn 8 iaith ar Wikipedia
1824
delwedd wedi'u tynnu
68MIL
O olygfeydd ar Wicipedia yn un mis
CYDWEITHREDU TRAWS-SECTOR
Sefydliadau treftadaeth ddiwylliannol lluosog yn partneru ag ysgolion a phrifysgolion
MABWYSIADU MYNEDIAD AGORED
Casgliad y Werin Cymru & CBHC yn rhannu cynnwys o dan amodau mynediad agored am y tro cyntaf
ANNOG NEWID POLISI
Eirioli newid polisi yn Croeso Cymru, CADW, CBHC a Chasgliad y Werin Cymru
43 GWIRFODDOLWYR
Wedi cerdded eu hardal leol i dynnu lluniau adeiladau hanesyddol
CYMHELLIAD
Pan ofynnwyd iddynt, dywedodd y cyfranogwyr fod y prosiect yn ffordd dda o gael nhw allan yn yr awyr iach yn ystod y cyfyngiadau Covid
DATA DWYIEITHOG AM DDIM & DIGWYDDIADAU CYNHWYSOL
2 YMGYRCH TORFOL
RHANNU CYNNWYS AR DRAWS LLWYFANNAU LLUOSOG
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Cymru lewyrchus
Cymru gydnerth
Cymru iachach
Cymru sy'n fwy cyfartal
Cymru o gymunedau cydlynus
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu